Cofiwch ddweud. Cadwch yn ddiogel.

Mae diogelu yn gyfrifoldeb ar bawb.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Os bydd plentyn yn dweud wrthych chi eu bod nhw neu berson ifanc arall yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, fe ddylech chi:

- **ddangos i'r plentyn eich bod chi wedi clywed beth mae'n ei ddweud, a'ch bod yn ei gymryd o ddifrif**
- **annog y plentyn i siarad, ond heb awgrymu na gofyn cwestiynau arweiniol**
- **esbonio'r camau y mae'n rhaid i chi eu cymryd, mewn ffordd sy'n berthnasol i'w oedran a'i ddealltwriaeth**
- **gwneud nodiadau ysgrifenedig o'r hyn y mae wedi'i ddweud, gair am air os yn bosibl, cyn gynted â phosibl**
- **nodi'r dyddiad, yr amser, y lle a'r bobl a oedd yn bresennol yn y drafodaeth.**

Ni ddylech chi:

- **dorri ar draws pan mae'r plentyn yn dweud wrthych chi am ddigwyddiadau**
- **gwneud i'r plentyn ailadrodd beth ddigwyddodd drosodd a throsodd**
- **addo i'w gadw'n gyfrinachol**
- **mynd wyneb yn wyneb â'r camdriniwr honedig.**

Trafodwch bryderon gyda'r uwch berson dynodedig (UBD) yn eich ysgol bob amser.

Eich UBD yw:

Wythnos Genedlaethol Diogelu
National Safeguarding Week

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG36169 Ar gael yn Saesneg hefyd/Also available in English